

YSGOL EIFIONYDD	YSGOL EIFIONYDD
Bwletin Mis Mawrth	March Bulletin
DYCHWELYD I'R YSGOL MAWRTH 2021	RETURNING TO SCHOOL MARCH 2021
<p>DIWEDDARIAD GAN Y PENNAETH Annwyl rieni, warchodwyr a disgyblion, Mae'r Bwletin yma'n cynnwys gwybodaeth a chyngor defnyddiol i chi wrth i'ch plentyn/plant dychwelyd i'r ysgol ym mis Mawrth.</p>	<p>UPDATE FROM THE HEADTEACHER <i>Dear parents, guardians and pupils, This Bulletin contains useful information and advice for you and your child/children as they return to school in March.</i></p>
<p>TREFNIADAU DYCHWELYD YM MIS MAWRTH 15:03:2021 Bydd disgyblion BLWYDDYN 11 yn dychwelyd i'r ysgol.</p> <p>17:03:2021 Bydd disgyblion BLWYDDYN 10 yn dychwelyd i'r ysgol.</p> <p>22:03:2021 Bydd disgyblion BLYNYDDOEDD 7, 8 a 9 yn dychwelyd i'r ysgol ac felly fe fydd POB DISGYBL YN MYNYCHU O'R DYDDIAD YMA YMLAEN, ONI BAI FOD ACHOS O COVID-19 O FEWN YR YSGOL.</p>	<p>ARRANGEMENTS FOR RETURNING IN MARCH 15:03:2021 <i>Pupils in YEAR 11 will return to school.</i></p> <p>17:03:2021 <i>Pupils in YEAR 10 will return to school.</i></p> <p>22:03:2021 <i>Pupils in YEARS 7, 8 a 9 will return to school and the school will therefore be OPEN FOR EVERYONE FROM THIS DATE ONWARDS, UNLESS THERE IS A COVID-19 CASE WITHIN THE SCHOOL.</i></p>
<p>DIOGELWCH: Os bydd unrhyw ddisgybl yn sâl gyda pheswch newydd a chyson neu dymheredd uchel, neu os bydd yn colli ei synnwyr arferol o flas neu arogl neu'n sylwi ar newid yn y synhwyrâu. Ni ddylai mynychu'r ysgol ond yn hytrach hunan-ynysu. Dylid wedyn trefnu prawf COVID-19 i'ch plentyn. Os ydi'ch plentyn wedi bod mewn cyswllt ac unigolyn sydd wedi profi yn positif gyda COVID-19 dylai hunan-ynysu am 10 diwrnod.</p> <p>CADW'N DDIOGEL: Mae defnyddiau glanhau ar gael yn yr ysgol ond anogir disgyblion i ddod a 'sanitiser' glanhau dwylo a 'wipes' gwrth firws personol gyda hwy i'r ysgol.</p> <p>GOLCHI DWYLO: Mae angen golchi dwylo'n drwyadl yn amlach nag arfer am o leiaf 20 eiliad gyda dŵr a sebon, neu ddefnyddio hylif diheintio dwylo os nad oes dŵr a sebon ar gael</p> <p>GORCHUDD WYNEB: Dylid gwisgo gorchudd wyneb tair haen unrhyw le o fewn yr ysgol, gan gynnwys toiledau, coridorau a'r ystafell ddosbarth. Yr</p>	<p>SAFETY: <i>If any pupil becomes unwell with a new and persistent cough or a high temperature, or has a loss of or change in their normal sense of taste or smell; then the individual should begin to self-isolate. You should then arrange that your child has a COVID-19 test. If your child has been in contact with an individual who has tested positive for COVID-19 they should self-isolate for 10 days.</i></p> <p>KEEPING SAFE: <i>Cleaning materials are available in the school, but pupils are encouraged to bring personal anti-virus hand sanitiser and wipes to school.</i></p> <p>HAND WASHING: <i>Everyone must regularly wash their hands thoroughly for at least 20 seconds with soap and running water or use hand sanitiser.</i></p> <p>FACE COVERINGS: <i>Three layered face coverings should be worn anywhere within the school, including toilets, corridors and the classrooms. The exception is at mealtimes and when your child is outside. Pupils should bring a spare face covering.</i></p>

ethriad i hyn yw yn ystod prydau bwyd a phan fydd eich plentyn tu allan. Dylai disgyblion ddod a gorchudd sbâr i'r ysgol. Nid oes gan yr ysgol orchudd wynebâu sbâr i'w rannu.

Profion: Mae'n debygol cyn y gwyliau Pasg fe fydd profion Covid-19 ar gael i ddisgyblion blynyddoedd 10 a 11.

The school does not have spare face coverings to share.

Tests: Probably just before the Easter Holidays, Covid-19 tests will be available for years 10 and 11.

GWISG YSGOL

- Bydd gwisg ysgol lawn yn orfodol ac felly hoffwn fanteisio ar y cyfle yma i'ch atgoffa o'r rheolau:

- ✓ Crys chwys ysgol
- ✓ Crys polo gwyn
- ✓ Trowsus du plaen/sgert ddu blaen - dim jîns, leggings/leggings ymarfer corff
- ✓ Esgidiau du plaen - dim logos
- ✓ **Côt law cynnes** : gall yr angen i ymgynnull a symud o gwmpas tu allan i'r ysgol barhau ac felly rhaid cael côl law ar gyfer tywydd gwlyb. Yn ogystal fe fydd ffenestri'r ysgol ar agor.

- Mae gwisg ysgol ar gael o Swyddfa'r ysgol.
- **Gallwch ffonio'r swyddfa (01766 512114)/ e-bostio (meleriw@eifionydd.gwynedd.sch.uk) gyda'ch archeb** (gweler ddogfen gyswllt) ac yna ffonio o'r maes parcio i hysbysu'r swyddfa eich bod wedi cyrraedd i gasglu'r archeb.
- Gallwch dalu gydag arian/siec neu gyda School Gateway. Gall defnydd o drosglwyddiad banc atal yr archeb hyd at wythnos.

SCHOOL UNIFORM

- *Full school uniform will be compulsory and therefore we would like to take this opportunity to remind you of the rules:*
 - ✓ *School sweatshirt*
 - ✓ *White polo shirt*
 - ✓ *Black trousers or skirt - no jeans, leggings/sports leggings.*
 - ✓ *Plain black shoes - no logos*
 - ✓ **Warm Raincoat:** *the need to gather outside the school to move around the outside of the school could continue and so a raincoat is essential. Windows inside the school will also be open.*
- *School uniform is available from the school office.*
- **You can phone the Office (01766 512114)/e-mail (meleriw@eifionydd.gwynedd.sch.uk) with your order** (see attachment), and then phone from the car park to inform the office that you have arrived to collect the order.
- *You can pay cash/cheque or through the School Gateway. The use of a bank transfer may delay the order for up to a week.*

CYRRAEDD A GADAEL YR YSGOL:

- **CADW'N DDIOGEL:** Wrth gyrraedd yr ysgol tua 8:55 yb dylai disgyblion sefyll o leiaf fedr i ffwrdd o bawb arall. Bydd drws penodol i bob blwyddyn fynd a dod o'r adeilad. Yr un drws a ddefnyddiwyd cyn Nadolig. **Nid oes neb i fynd i mewn i adeilad yr ysgol nes iddynt gael eu hebrwng i mewn gan aelodau o staff.**
- **CYRRAEDD A GADAEL AR FWS:** Bydd disgyblion angen gwisgo **mwgwd tair haen** ac eistedd drws nesaf i ddisgybl o'r un flwyddyn ysgol neu sedd wag. Gofynnwn i'ch plentyn i beidio symud nes cyrraedd yr arosfan gywir. Cofiwch y pas bws.
- **CYRRAEDD A GADAEL MEWN CAR:** Dylai'ch rhieni eich gollwng a chodi o **FAES PARCIO GWESTY'R QUEENS** a dylech aros i'r gofalwr eich hebrwng

GETTING TO AND LEAVING THE SCHOOL:

- **KEEPING SAFE:** *On arrival at school at approximately 8:55 am, pupils should stand at least a meter away from everybody else. Each year will have a dedicated door to enter and leave the building. The same door as before Christmas. **No one is to enter the school building until they have been escorted by members of staff.***
- **ARRIVING AND LEAVING BY BUS:** *Pupils will need to wear a **three-layered mask** and sit next to a pupil from the same school year or an empty seat. Your child should not move until they reach the correct stop. Please remember the bus pass.*
- **ARRIVING AND LEAVING BY CAR:** *Parents should drop pupils off and pick them up and leave from the **QUEENS HOTEL CAR PARK**. Pupils should wait*

<p>gan gadw ar y rheol medr. NI DDYLAI'R UN RHIANT DDOD A'U CEIR I FAES PARCIO NAG IARD YR YSGOL.</p> <ul style="list-style-type: none"> • CERDDED: Wrth gyrraedd a gadael yr ysgol dylid cadw at y rheol fedr. • Bydd staff yr ysgol yn croesawu disgyblion wrth y gât ac ar yr iard ac yn egluro'n union beth sydd ydi'r trefniadau. 	<p><i>for the caretaker to help them cross the road whilst keeping the metre rule. NO PARENT SHOULD BRING THEIR CAR INTO THE SCHOOL CAR PARK OR SCHOOL YARD.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • WALKING: <i>When arriving and leaving the school pupils should keep to the metre rule.</i> • School staff will welcome pupils at the gate and on the yard and will explain exactly what the arrangements are.
<p>AMSERLEN Y DIWRNOD</p> <ul style="list-style-type: none"> • GWERSI: Bydd disgyblion yn dilyn amserlen lawn ond efallai na fydd pynciau ymarferol yn gallu gweithredu fel arfer. Bydd gwersi Coleg, Ardudwy a Glan y Môr blynyddoedd 10 a 11 yn cael eu dysgu ar safle Ysgol Eifionydd tan gwyliau y Pasg. • DOSBARTHIAU: Bydd yr ysgol wedi ei rhannu'n barthau un waith eto gyda pharth a drws penodol wedi eu neilltuo ar gyfer pob blwyddyn. Bydd disgyblion yn aros yn eu hystafelloedd ar gyfer y rhan fwyaf o bynciau a'r athrawon yn symud atynt. Bydd peth newid i'r grwpiau/setiau dysgu i hwyluso'r trefniadau yma o ran blynyddoedd 10 a 11 fel gynt. • TOILEDAU: Bydd toiledau gwahanol wedi eu neilltuo ar gyfer pob blwyddyn fel gynt ac mae'n hanfodol ein bod yn cadw at y rheol yma. Bydd disgyblion yn cael mynediad i'r toiledau fesul un. • EGWYL A CHINIO: Bydd disgyblion yn aros mewn ardal sydd wedi ei benodi ar gyfer eu blwyddyn. Fe fydd amseroedd cinio yn cael eu rannu fel gynt. 	<p>TIMETABLE FOR THE DAY</p> <ul style="list-style-type: none"> • LESSONS: <i>Pupils will follow a full timetable but some practical lessons may not be able to happen as usual. Years 10 and 11 College, Ardudwy and Glan y Môr courses will be taught in Ysgol Eifionydd until the Easter holidays.</i> • CLASSROOMS: <i>The school will again be divided into zones with a specific zone and door allocated to each year. Pupils will stay in their classrooms for most subjects and the teachers will move to them. As before there will be some changes to groups/sets to facilitate these changes in regards to years 10 and 11.</i> • TOILETS: <i>As before each group will have separate toilets including staff and it is essential that we keep to this rule. Pupils will have access to the toilets one at a time.</i> • BREAK AND LUNCH: <i>As before, pupils will stay in the area dedicated for their year. Lunch times will be staggered as before.</i>
<p>TREFNIADAU YMARFEROL:</p> <ul style="list-style-type: none"> • OFFER: Bydd angen i ddisgyblion ddod ag offer ysgrifennu ac offer mathemategol gyda hwy i'r ysgol. • BWYD A DIOD: Bydd y cantîn yn darparu bwyd amser cinio. Bydd y dewis o fwyd yn fwy cyfyng nag arfer ac fe fydd disgyblion yn gorfod bwyta o fewn amser penodedig gan mai un flwyddyn ar y tro fydd yn bwyta. Mae croeso i ddisgyblion ddod a phhecyn bwyd ond ni fydd hi'n bosib iddynt fwyta yn y cantîn. Ni fydd bwyd ar gael amser egwyl. 	<p>PRACTICAL ARRANGEMENTS:</p> <ul style="list-style-type: none"> • EQUIPMENT: <i>Pupils will need to bring writing and mathematical equipment with them to school.</i> • FOOD AND DRINK: <i>The canteen will provide food at lunchtime. The choice will be more limited than usual and pupils will have to eat their meal within a specific time as only one year will be eating at a time. Pupils are welcome to bring a packed lunch but will not be able to eat in the canteen. No food will be available at break time.</i>
<p>GALW I MEWN I'R YSGOL</p> <p>Mae'r ysgol bob amser yn awyddus i gwrdd â rhieni ond o dan yr amgylchiadau presennol ni all rhieni alw i mewn i'r ysgol heb apwyntiad. Gofynnwn i chi gysylltu â swyddfa'r ysgol i drefnu sgwrs ffôn yn hytrach na chyfarfod wyneb yn wyneb os yw hynny'n bosib.</p>	<p>CALLING IN AT THE SCHOOL</p> <p><i>The school is always keen to meet parents but under the current circumstances, parents cannot call by the school without an appointment. Please contact the school office to arrange a telephone conversation rather than a face-to-face meeting if possible.</i></p>

**Edrychwn ymlaen at groesawu'n disgyblion yn ôl i'r
ysgol ym mis Mawrth.
Cadwch yn iach a diogel,
Dewi R Bowen**

***We look forward to welcoming our pupils back to
school in March.
Please keep healthy and safe,
Dewi R Bowen***